

# Newyddlen Haf 2017

## Adeilad Newydd Ysgol Penyffordd

Croeso i'n newyddlen gyntaf, sy'n rhoi mwy o wybodaeth i chi am adeilad newydd Ysgol Penyffordd.

I wybod mwy am y prosiect a chael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, defnyddiwch y dolenni canlynol.

Tudalennau Moderneiddio Ysgolion Cyngor Sir y Fflint

<http://flintshire.gov.uk/schoolmodernisation>

Neu cysylltwch â ni ar:

[21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)

Dilynwch ni ar Twitter:

[@FCCSchoolMod](https://twitter.com/FCCSchoolMod)

## Beth sydd wedi digwydd hyd yma

Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Sir y Fflint i adolygu a lle bo angen, moderneiddio ei adeiladau ysgol. Un ardal a glustnodwyd ar gyfer buddsoddiad yn ein hysgolion yw ardal Penyffordd.

Bydd y cyfleuster ysgol gynradd y 21ain Ganrif yn gweld ysgol gynradd gymunedol newydd cyfrwng Saesneg gyfun o 3-11 oed yn cael ei chodi ar safle Abbotts Lane ar gyfer 315 o ddysgwyr amser llawn a Meithrinfa 45 lle Cyfwerth ag Amser Llawn. Bydd adeilad presennol yr ysgol feithrin yna'n cael ei ddymchwel, a bydd gwell lle parcio yn cael ei adeiladau ar gyfer staff ac ymwelwyr a lle penodol i rieni ollwng eu plant. Bydd y cyfleuster yn darparu profiad dysgu llawn ysbrydoliaeth i blant oed cynradd.

## Digwyddiadau i ddod yn fuan

Gorffennaf 11 2017 - 15:30pm i  
19:00pm

### Digwyddiad Galw Heibio Ymgynghori Cyhoeddus - Ysgol Penyffordd, Abbott's Lane, Penyffordd, Ger Caer, CH4 0HW

Dewch i weld y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd a siarad â'r Contractwr a'r Tîm sy'n gwneud y gwaith adeiladu.

## Ffeithiau Allweddol

✓ Adeilad newydd Ysgol Gynradd gyda lle i 315 o Ddisgyblion Llawn amser a Meithrinfa 45 lle FTE ar Safle Abbott's Lane

✓ Mae dyluniad yr ysgol yn cynnwys: Ystafell ddosbarth i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, Neuadd a chyfleusterau Stiwdio; ystafell gymunedol; ardal cae chwarae gwair; cae chwaraeon amlddefnydd; ardaloedd cynefin a hamdden, gwell maes parcio i staff ac ymwelwyr a pharth gollwng a chodi i rieni/gofalwyr

✓ Mwy o leoedd parcio i staff ac ymwelwyr gyda pharth codi a gollwng penodol i rieni / gofalwyr

✓ Dyluniad parod ar gyfer y dyfodol i ganiatáu estyniadau ystafelloedd dosbarth os bydd cynnydd yn nifer y dysgwyr yn yr ardal

✓ Dyluniad ystyriol i weddu i'r gymuned

Mae'r cyllid ar gyfer y prosiect yn cael ei sicrhau ar hyn o bryd drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Bydd arian cyfatebol yn cael ei geisio ar sail 50:50 gyda Chyngor Sir y Fflint yn darparu 50% o'r cyllid sydd ei angen.

Mae Wynne Construction wedi gwneud cais llwyddiannus ac wedi sicrhau contract i ddylunio ac adeiladu'r ysgol gynradd newydd.

Bydd adeilad newydd yn cael ei godi y tu ôl i safle presennol Abbott's Lane. Bydd yr ysgol ar y safle hwn yn dal yn weithredol yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'n dal angen penderfynu ar ddyddiadau cychwyn adeiladu. Bydd y contractwr yn sicrhau bod y gwaith yn tarfu cyn lleied â phosib' ar y dysgwyr a'r gymuned leol.

### **Sut fydd yr adeilad newydd yn edrych?**

Mae'r prosiect ar y camau cyntaf o ran datblygu'r dyluniad. Unwaith y bydd cynlluniau ar gael, byddant yn cael eu rhannu gyda'r holl fudd-ddeiliaid cysylltiedig, gan gynnwys cyfle i'r cyhoedd ddarparu sylwadau yn ystod y cyfnod cynllunio. Byddwn hefyd yn adolygu'r cynlluniau gyda Gwasanaethau Comisiwn Dylunio Cymru.

Mae digwyddiad ymgynghori galw heibio wedi ei drefnu ar 11 Gorffennaf yn dechrau o 3:30pm tan 7:00pm ar safle Abbott's Lane er mwyn i unrhyw un sydd â diddordeb bicio draw a manteisio ar y cyfle i weld y cynlluniau a siarad gyda'r Contractwr â'r Tîm sy'n gyfrifol am adeiladu.

Bydd ardal y maes parcio allanol hefyd yn cael ei wella a'i ehangu, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer staff a maes parcio i ymwelwyr a pharth gollwn a chodi i rieni / gofalwyr.

Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sut y bydd yr adeilad newydd yn gweddu i'w amgylchedd presennol yn ystod y camau dylunio mewn cydweithrediad â'n Tîm Cynllunio a'i ymgorffori i'r cynigion.

Mae'n bleser gennym gadarnhau y bydd dyluniad yr ysgol newydd yn cynnwys ardal hyblyg y gellir ei defnyddio ar gyfer Technoleg Bwyd a chyfleuster cymunedol y gellir cael mynediad iddo drwy'r Pennaeth.

Bydd yr adeilad newydd yn cynyddu nifer lleoedd yr ysgol o 259 i 315 o ddisgyblion llawn amser, gyda chyfleuster ar gyfer Meithrinfa gyda lle i 45 o ddisgyblion cyfwerth ag amser llawn.



### **Digwyddiadau i ddod yn fuan**

Gorffennaf 11 2017 - 15:30pm i 19:00pm

#### **Digwyddiad Galw Heibio Ymgynghori Cyhoeddus - Ysgol Penyffordd, Abbott's Lane, Penyffordd, Ger Caer, CH4 0HW**

Dewch i weld y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd a siarad â'r Contractwr a'r Tîm sy'n gwneud y gwaith adeiladu.

### **Cyhoeddiadau Pwysig**

- Penodwyd Wynne Construction yn Contractwr ar gyfer y prosiect
- Gwybodaeth prosiect ar gael <http://tinyurl.com/j4mfaa5>

Mae'r dyluniad yn cynnwys ystyriaeth ofalus i anghenion yr ysgol yn y dyfodol, bydd hyn yn sicrhau, os bydd cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion yn yr ardal, y bydd yr ysgol wedi ei dylunio mewn modd a fydd yn caniatáu estyniadau pellach.

Rydym yn edrych ymlaen i glywed barn y gymuned ar y prosiect. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weithio gyda'r ysgol a'r adeiladwr ar y prosiect newydd cyffrous hwn, a byddwn yn rhoi diweddariadau i chi ar y cynnydd wrth i'r adeilad newydd ddatblygu.

## Budd-ddeiliaid Allweddol y Prosiect

Cyngor Sir y Fflint



Ysgol Penyffordd



Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ysgolion yr 21ain ganrif - Llywodraeth Cymru

[Ysgolion yr 21ain Ganrif](#)  
[21st Century Schools](#)

Wynne Construction



## Digwyddiadau i ddod yn fuan

Gorffennaf 11 2017 - 15:30pm i 19:00pm

**Digwyddiad Galw Heibio Ymgynghori Cyhoeddus - Ysgol Penyffordd, Abbott's Lane, Penyffordd, Ger Caer, CH4 0HW**

Dewch i weld y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd a siarad â'r Contractwr a'r Tîm sy'n gwneud y gwaith adeiladu.

## Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

I wybod mwy am y prosiect a chael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, defnyddiwch y ddolen ganlynol.

<http://tinyurl.com/j4mfaa5>

Dilynwch ni ar Twitter:

@FCCSchoolMod